Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Ysgol

**SWYDD:** Swyddog Cymorth Dysgu

**GRADD Y SWYDD:** GR06

**YN ATEBOL I'R:** Pennaeth

---

**PWRPAS Y SWYDD:**

O dan gyfarwyddyd staff addysgu/staff perthnasol ymgymryd ag amrywiaeth o raglenni cymorth i alluogi mynediad i ddysgu ar gyfer myfyrwyr/disgyblion a chynorthwyo'r athro wrth reoli disgyblion yn yr amgylchedd dysgu.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Goruchwylio disgyblion yn ystod gwersi a rhwng gwersi gan ddarparu gofal penodol i'r disgyblion hynny ag anghenion arbennig/ychwanegol - sicrhau diogelwch disgyblion a mynediad i weithgarwch dysgu.
- Cynnal gweithgarwch dysgu strwythuredig ac y cytunwyd arnynt, addasu neu newid i alluogi mynediad disgyblion i ddysgu.
- Cyfrannu at gynllunio a gwerthuso rhaglenni dysgu.
- Creu a chynnal amgylchedd pwrpasol, trefnus a chynorthwyol.
- Monitro ymatebion disgyblion i ddysgu a rhoi adborth i athrawon ar gyflawni, cynnydd, problemau ac ati.
- Cynorthwyo â goruchwylio disgyblion y tu allan i amser gwersi, gan gynnwys amser cinio ac amser chwarae.
- Hyrwyddo cynnwys a derbyn pob disgybl.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal eich hyfforddiant proffesiynol eich hun neu i wella cymhwysedd yn y swydd.

- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n gymesur â gradd y swydd.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai.  Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

## Manyleb y Person

## Swyddog Cymorth Dysgu

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • NVQ lefel 3 i Gynorthwywyr Addysgu neu gyfwerth neu brofiad y gellir ei ddangos.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.<br>• Hyfforddiant Cymorth Cyntaf (neu barodrwydd i ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw). | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phlant neu ofalu amdanynt.<br>• Dealltwriaeth gyffredinol o'r cwricwlwm cenedlaethol/cyfnod sylfaen.<br>• Dealltwriaeth sylfaenol o ddatblygiad plant a'u dysgu.<br>• Profiad o weithio gyda phlant oed cynradd ag anghenion addysgol arbennig | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau llythrennedd a rhifedd da.<br>• Defnydd effeithiol o TGCh i gynorthwyo dysgu<br>• Gallu datblygu cynlluniau dysgu a monitro cynnydd, gan gyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gryno | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Gallu cysylltu'n dda â phlant ac oedolion.<br><br>• Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm.<br><br>• Yn gwrtais wrth ddelio â staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.<br><br>• Yn rheoli amser yn effeithiol<br><br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Ysgolion

**SWYDD:** Goruchwyliwr Llanw

**GRADD Y SWYDD:** Gradd 8

**YN ATEBOL I'R:** Pennaeth

---

## DIBEN Y SWYDD:

Yn absenoldeb yr athro/athrawes ddosbarth gyfrifol byddwch yn galluogi parhad dysgu drwy ddehongli, defnyddio a chyflawni ymarferion a baratowyd ymlaen llaw a gwaith wedi'i osod, yn ogystal ag ymgysylltu, cymell a rheoli ymddygiad disgyblion.

---

## PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Cymryd lle'r athro/athrawes ddosbarth drwy ddefnyddio deunyddiau wedi'u paratoi ymlaen llaw, gan benderfynu ar addasu lle y bo angen.
- Creu a chynnal a chadw amgylchedd bwriadol, trefnus a chefnogol, yn unol â chynlluniau gwersi.
- Asesu anghenion dysgu a dyfeisio dulliau amgen o hwyluso dysgu a dealltwriaeth.
- Darparu gofal arbenigol i'r disgyblion hynny â gofynion sylweddol.
- Hyrwyddo cynhwysiant a sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i gyfleoedd i ddysgu a datblygu.
- Bod yn ymwybodol o ofynion gwahanol y disgyblion.
- Monitro a gwerthuso llwyddiant gweithgareddau yn erbyn mesurau y cytunwyd arnynt. Rhoi adborth manwl a rheolaidd i athrawon ar gyflawniad, cynnydd a phroblemau disgyblion.
- Gall fod yn ofynnol ichi oruchwylio eraill, dyrannu a gwirio gwaith, cyfarwyddo a monitro staff yn yr ystafell ddosbarth.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaethau IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Swyddfa Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person

## Goruchwyliwr Llanw

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • NVQ lefel 4 ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu neu gymhwyster/profiad cyfwerth.<br>• Hyfforddiant Cymorth Cyntaf priodol.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. | Ydy<br><br><br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad blaenorol o weithio gyda phlant o oed perthnasol<br>• Gwybodaeth am y cwricwlwm cenedlaethol/cwricwlwm y cyfnod sylfaen, strategaethau/rhaglenni dysgu perthnasol a dealltwriaeth o hyn.<br>• Deall egwyddorion datblygiad plant a'u dysgu.<br>• Dealltwriaeth dda o rolau a chyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau llythrennedd a rhifedd gwych.<br>• Defnydd effeithiol o TGCh i gynorthwyo dysgu<br>• Gallu datblygu a gweithredu cynlluniau dysgu clir a realistig a monitro cynnydd | <br><br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a geirdaon. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu cysylltu'n dda â phlant ac oedolion.<br><br>• Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm.<br><br>• Yn gwrtais wrth ddelio â staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.<br><br>• Yn rheoli amser yn effeithiol.<br><br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |